YR NUT

Newyddion yr NUT

RHIFYN ARBENNIG
Y GYLLIDEB

Mehefin 2010

Yr undeb mwyaf ar gyfer athrawon
www.teachers.org.uk

Nid oes gwella fyth pan glwyfir addysg

Cyflogau tan fygythiad

Wedi'r gyllideb ar 22 Mehefin, mae miloedd o athrawon a gweithwyr eraill o fewn y sector cyhoeddus yn wynebu rhewi ar eu cyflogau o 2011 am gyfnod o ddwy flynedd. Bydd gosod terfynau ar gyfraddau cyflog neu eu rhewi yn golygu y bydd yna lai o allu i wario o fewn yr economi. Bydd hyn yn ei dro yn rhwystro'r adferiad economaidd ac yn dwyn perygl o'n gwthio i mewn i ddirwasgiad o ostyngiad deublyg. O ran y proffesiwn addysgu, fel pob proffesiwn, bydd rhewi ar gyflogau yn gwneud i'r rhai sy'n ystyried dod yn athrawon feddwl eto.

Pensiynau tan fygythiad

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi dechrau ymosod ar eich pensiwn. Dywed y Llywodraeth fod eich pensiwn yn 'annheg' ac yn 'anghynaladwy'. Bydd Comisiwn 'annibynnol' yn chwilio am doriadau.

Y mae hyn yn anwybyddu'r ffaith y diwygiwyd y Cynllun Pensiwn Athrawon yn barod er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Pan fydd y gwleidyddion a'r cyfryngau yn trafod pensiynau o fewn y sector cyhoeddus, maent yn awgrymu'n gyson fod gweithwyr o fewn y sector cyhoeddus yn derbyn ffortiwn. Mewn gwirionedd, mae athrawon ar gyfartaledd yn derbyn pensiwn blynyddol o lai na £10,000. Mae pensiynau o fewn llywodraeth leol yn llawer iawn llai ar gyfartaledd – tan £4,000 y flwyddyn.

Cyllid tan fygythiad

Dywedodd y Canghellor y gall cyllid addysg gael ei thorri gan gymaint a 25 y cant tros y pedair blynedd nesaf. Mae'r methiant i warchod cyllid addysg rhag y toriadau cyllid yn anfaddeuol. Mae cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer gwariant ar bethau heblaw ysgolion – gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid a chymunedol a rhai pwysig eraill sy'n cefnogi ysgolion a myfyrwyr – eisoes tan y gyllell eleni. Bydd torri cyllid ar gyfer ysgolion a dibenion cysylltiedig eraill yn niweidio plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai tlotaf, ac ni fydd gwella ar y clwyf.

Meddai Christine Blower, Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT:

"Mae'r gyllideb hon yn dangos diffyg gofal y Llywodraeth am y gwasanaethau cyhoeddus a'r staff ymroddgar sy'n eu cyflawni. Nid yw'n dderbyniol fod gwasanaethau cyhoeddus anhepgor yn gorfod talu am fyrbwylltra cywilyddus y bancwyr. Bydd yr NUT yn cymryd pob cam posibl i warchod addysg a'r sector cyhoeddus."

Nid oes gwella fyth pan glwyfir y sector cyhoeddus

Ein nod: un undeb ar gyfer athrawon i gyd

Ymunwch â'r NUT Mynnwch air â'ch cynrychiolydd ysgol

www.teachers.org.uk

Ffoniwch nawr i ymuno

Llinellau Brys Ymaelodi **0845 300 1669** neu **020 7380 6369**

Llinell Gymorth Manylion **0845 300 1666**

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk – 6911w/06/10